

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 154

Rhif 49

Rhagfyr 9 2021

50c.

Afledneisrwydd

Gallwch ddisgwyl, meddan nhw, am hydoedd am fws cyn i ddau neu dri ddod efo'i gilydd. Mae arna i ofn mai tebyg iawn yw perthynas *Gronyn* â Mr Johnson gan mai gyda phrif weinidog San Steffan y cychwynnaf heddiw fel y Sul diwethaf. Ond ble mae dechrau?

Peppa Pig

Wythnos i heddiw, aeth Mr Johnson i weld Peppa Pig, a thrannoeth cafodd Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain adroddiad am yr ymweliad. Am y tro, dweud dim fyddai orau am y ffars o hyrwyddo'r ddelwedd o'r ffŵl annwyl trwy smalio colli ei le yn ei nodiadau (er mwyn tynnu sylw oddi ar fethiannau a phroblemau'r Llywodraeth?). I mi, y peth gwaethaf am ei araith oedd yr hyn a ddywedodd wrth drafod deg elfen ei gynllun ar gyfer gweithredu er budd yr amgylchedd. Daeth y deg elfen ato,



meddai, ar fynydd Sinai, yn 'ddeg gorchymyn newydd'. Nid ef yw'r cyntaf i sôn am beth felly; cafwyd sawl enghraifft o 'ddeg gorchymyn' ar gyfer gêm neu gymdeithas neu ysgol ymysg pethau eraill. Ond dyma'r tro cyntaf i mi glywed neb yn dweud ei fod wedi eu derbyn 'ar [fynydd] Sinai'. Yn amlwg, nid yw'n ddigon bellach i Mr Johnson fod fel ei arwr Churchill, mae am fod fel Moses yn derbyn ei bolisiau oddi wrth Dduw. Galwch fi'n hen ffasiwn ac yn gul; ond i mi, y mae yna rywbeth aflednais yn y syniad o 'ddeg gorchymyn' heblaw Deg Gorchymyn Duw ei hun. Ac aflednais hefyd yw'r awgrym y gall yr un ohonom ni ein cymharu ein hunain â Moses.

Trychineb

Ac afledneisrwydd o'r mwyaf oedd yr hyn a gafwyd ganddo nos Iau yn dilyn boddi o leiaf 31 o bobl a phlant yn y sianel wrth geisio croesi o Ffrainc i dde Lloegr mewn cwch cwbl anaddas. Anfonodd lythyr at Arlywydd Ffrainc i ddweud beth y dylai hwnnw ei wneud ynglŷn â'r bobl sy'n croesi'r Sianel er mwyn

ceisio lloches yn y Deyrnas Unedig, (nid ei fod ef yn defnyddio'r term 'ceisio lloches' wrth gwrs). A'r un pryd cyhoeddodd y llythyr ar Twitter er mwyn i'r byd ei ddarllen. Rhad arnom os yw hwn yn credu mai Twitter yw'r llwyfan priodol ar gyfer trafodaethau ar faterion hollbwysig rhwng gwladweinwyr.



Eu dychwelyd

Byrdwn aflednais ei neges oedd y 'returns agreement'. Mewn gair, hawl fyddai hwnnw i Brydain anfon yn ôl i Ffrainc unrhyw un a lwyddai i ddod yma i geisio lloches. Mor annynol a gwrthun! 'Returns agreement' sy'n caniatáu i ni ddychwelyd nwyddau diangen at y gwerthwr, a than drefn felly yr arferai pobl gael tair ceiniog am ddychwelyd potel bop wag i siop. Wrth ymwrthod â'r cyfrifoldeb i lochesu ffoaduriaid, ac wrth geisio pob ffordd bosib o'u danfon yn ôl i Ffrainc, mae Mr Johnson mewn peryg o roi'r argraff nad yw'r bobl hyn ond pethau diwerth a diangen. Ie, rhad arnom os mai felly y mae'n ei gweld hi. A rhag i ni fod ar unrhyw gyfri'n debyg iddo, gweddiwn dros ffoaduriaid, dros bawb sy'n gweini arnynt ac yn eiriol drostynt, a thros wladweinwyr sy'n gyfrifol amdanynt.

John Pritchard

(O *Gronyn*, taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las, 28 Tachwedd, 2021)

Ymgyrch Nadolig y Plentyn



Ar fore Sul 21 Tachwedd cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn ar gyfer ymgyrch Plentyn y Nadolig yng nghapel Hope-Siloh, Pontarddulais.


Roedd y gwasanaeth yng ngofal plant a ieuenctid y capel a braf oedd eu croesawu yn ôl i'n mysg. Rydym mor ffodus fel capel i gael criw o blant a phobl ifanc ffyddlon a thalentog sydd bob amser mor barod eu cyfraniad. Trwy ddefnyddio dwylo fel symbol, fe'n hatgoffwyd mor bwysig yw hi i roi a derbyn anrhegion ac i gofio am eraill llai ffodus na ni gan blant y capel a datblygwyd y thema ymhellach yng nghyflwyniadau didwyll y bobl ifanc. Roedd gweld y wên ar wyneb y plant wrth iddynt dderbyn bocsys Plentyn y Nadolig yn werth y byd. Diolch i bob un a gymerodd ran, i Meinir a Luned y technegwyr, Eric yr organydd ac i Marie-Lynne am arwain y gwasanaeth. Awn ati nawr i lenwi blychau ar-lein er mwyn dymuno Nadolig Llawn i blant ar draws y byd.

Jennifer Clark

CHWILMENTAN ETO

(Dyma ail ran yr erthygl hon gan y Parchg Meirion Evans.)

Y mae'r ymadrodd 'Gentle Giants' ym mhennawd yr erthygl yn dra arwyddocaol wrth i'r awdur bwysleisio na chafwyd yma'r peth a eilw ef yn 'hair splitting theology or philosophy or modern sociology.' Nid oedd yma daranu na chwythu bygythion, na'r hen 'hwyl' ychwaith, eithr '... two of the well loved preachers of the simplest scriptural doctrine who had always understood the people of their day.' Hynny yw dyma ddau gyfathrebwr heb eu hail, a dau oedd yn deall mai athro oedd Iesu nid actor, pregethwr rhagor na pherfformiwr. Wrth gofio H. T. Jacob a darlun y lleidr yn croesi'r Fenai, byddaf yn holi yw'r eglureb mor boblogaidd erbyn hyn? Ym 1968 cyhoeddodd Gwasg Gomer antholeg y Parchedig D. J. Roberts, *Ffenestri'r Gair*, cyfraniad gwerthfawr petai ond am ragymadrodd cyfoethog yr awdur. Dywed mai un o hanfodion yr eglureb ydyw ei symlwydd, boed hanesyn gwir neu ddychmygol. Darlun mewn geiriau ydyw.



H. T. Jacob, Abergwaun

Gorgymlethu

Cofiaf glywed yr ymadrodd, 'The simple Christian thinks in pictures.' Oherwydd y mae perygl gorgymhlethu a drysu'r gwrandaŵr neu'r darllenwr. Yn union wedi i ni ddechrau fel

gweinidog ifanc yn Sir Aberteifi, nid oedd cyfeillion y Cwrdd Chwarter ryw lawer cyn dod ar fy ngofyn i agor trafodaeth ar 'Yr Alegori' yn Efengyl Ioan. (Ond pan gefais y llythyr swyddogol yr oedd wedi tyfu i fod Yr Alegori yn y Testament Newydd). Tybed a oedd seraffiaid Cyfundeb Ceredigion am weled o ba ddefnydd y gwnaed y cyw coleg oedd newydd ddisgyn ar y buarth? Ond na, nid felly, gan na chefais ddim llai na phob cefnogaeth a gwerthfawrogiad mwy nag oedd fy ymdrech yn ei haeddu.

Impio pren

Ac yn y Testament Newydd ceir enghraifft berffaith o orweithio darlun sydd yn arwain at ddryswch rhagor nag eglurhad, a hynny gan neb llai na'r Apostol Paul. Yn yr unfed bennod ar ddeg o'r llythyr at y Rhufeiniaid, adnodau 17– 24, gwêl yr Eglwys megis olewydden. Torrwyd ymaith rai canghennau, hynny yw'r Iddewon sydd yn gwrthod yr Efengyl, ac impiwyd arni gangen olewydden wyllt, sef y cenhedloedd, y bobl oddi allan ddaeth at y ffydd. Ond wrth geisio datblygu'r darlun ymhellach gwelwn fod yr apostol yn mynd i'r gors braidd, a daw yn amlwg nad oedd fel petai yn lawn ddeall y grefft. Cofiaf am fy nhad-cu yn ei harfer, yn impio pren afal o un rhywogaeth i foncyff pren o rywogaeth arall ac yn llwyddo i ddwyn ffrwyth yn ei dro. Wedi'r cyfan, dyn y ddinas oedd Paul, pell o fod yn un o feibion cefn gwlad, ac annoeth fyddai i arddwr ddilyn ei gyfarwyddiadau a ddisgrifiwyd gan un esboniwr fel 'a curious piece of horticulture.' Ond er tegwch iddo, pan ddaw at ddiwedd y darn y mae'n ddigon parod i addef fod ei ddisgrifiad o'r grefft impio 'yn groes i natur.' Dewisodd ddelwedd oedd ddiethr iddo, a thrwy hynny y mae'r neges yn gofyn am ganolbwyntio ar bob cymal. Byddai pregethwr wedi hen golli ei gynulleidfa.

Gwinwydden

Aeth Iesu hefyd am ddarlun o'r coed ffrwythau, nid o'r berllan ond o'r winllan: 'Myfi yw y wir winwydden.' A dyna ddarlun y gall hyd yn oed y garddwr mwyaf di-glem ei ddeall, a gweld ei ystyr heb orfod pendroni'n

ormodol. Os yw'r ddameg yn ddigon da i'r Meistr, prin fod angen cyfiawnhad mwy.

Cyfathrebwyr

Yn y misoedd aeth heibio heb fod cyfle i fynd i bulpud, a'r bregeth wedi troi yn 'neges', 'myfyrdod' ac 'anerchiad', ar radio neu deledu, dichon y gall darlunio crefftus a chwaethus fod yn ychwanegiad tra effeithiol i ddal sylw gwrandaŵr a gwylwyr ar eu haelwydydd, neu hyd yn oed wrth yrru car. Un o bryderon myfyrwyr gynt fyddai ceisio dod o hyd i bregethwr o berchen car fyddai'n mynd i'r un cyfeiriad ar y Sul. Un bore Sul bûm ddigon ffodus gael teithio yng ngerbydd tr Athro Tom Elis Jones o Goleg y Bedyddwyr, a'r sgwrs yn troi at y ffaith mai cynulleidfaoedd bychain lawn oedd i'n hwynebu'r bore hwnnw. Nid anghofiaf sylw'r Athro sef bod aelodau cynulleidfa fechan yn gofyn inni sgwrsio â nhw yn hytrach na phregethu atynt. Os gwir hynny ym mhumdegau'r ganrif aeth heibio, gymaint mwy perthnasol ydyw ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Ac yn hynny o beth, dyna union ddull Jacob Abergwaun ac Elfed ac eraill tebyg, arddull y cyfathrebwyr effeithiol fedrai gadw sylw cynulleidfa, boed fach neu fawr. Dyna a'u gwnaeth yn 'Gentle Giants of the Pulpit'.

A dyna fe. Wedi'r cyfan er nad oedd namyn darn o bapur newydd achubwyd o'r tân, nid ofer fu'r chwilmantan.

Meirion Evans

Rhwng cwsg ag effro

Er môr o gwsg rwyf ar ddihun,
Ac wrthi'n dyfod at fy hun,
Rhwng gras y nos a brig y wawr,
Yr hyn a fu yn heriau mawr.
Nid wyf am godi, eto'r wyf ...
Â'm blys am nef, yn nod a nwyf!
Ond yma rwyf wrth rwyf y Gân
A'r pethau mwy yn bwythau mân.
Rwy weithiau fry ac weithiau lawr,
Ond ble cheir nef fel nef yr awr?
Ac mewn cyfamod triw â'r Oen
Y pwysaf am Ei hedd a'i hoen.
Waeth beth sy'n fwy na bod ar lin
Yr UN sydd inni'n Dduw ei hun!

Gerald Jones

Galw ar gwmni Apple i fynd i'r afael â gwahaniaethu crefyddol wrth i Tsieina barhau i geisio tewi Gair Duw

Mae'r elusen Open Doors, sy'n gweithio ym maes rhyddid crefyddol, yn galw ar gwmni Apple i godi ei lais yn erbyn 'gwahaniaethu crefyddol amlwg' ar ôl i ap o'r Beibl gael ei ddileu o'i Apple Store ar y we.

Mae ap Olive Tree ar gyfer ffonau symudol yn caniatáu i ddefnyddwyr ddarllen gair Duw. Ond cafodd ei wahardd ar ôl i gwmni Apple fethu sicrhau trwydded i'w ddosbarthu yn Tsieina yn ystod y broses adolygu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, mae nifer o apiau Cristnogol wedi'u gwahardd yn Tsieina fel rhan o ymateb llym y wlad i Gristnogaeth. Dywedodd Dr David Landrum, Cyfarwyddwr Eiriolaeth Open Doors, y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: 'Mae hyn yn gosod cynsail peryglus ar gyfer rhyddid crefyddol. Yn hanesyddol, mynediad i'r Beibl, yn fwy nag unrhyw ddylanwad arall, sydd wedi galluogi rhyddid crefyddol; mae hyn yn ei dro yn sylfaen i gynifer o hawliau dynol eraill.'

'Dyma'n union pam mae Plaid Gomiwnyddol Tsieina (CCP) mor wrthwynebus i bobl Tsieina gael mynediad ato. Er bod llawer o dechnoleg Apple yn cael ei chynhyrchu yn Tsieina, gobeithio y bydd y cwmni'n codi ei lais yn erbyn y gwahaniaethu crefyddol amlwg hwn.'

Mae Open Doors yn honni bod y gwaharddiad hwn yn digwydd wrth i awdurdodau Tsieina fynd yn fwyfwy gelyniaethus tuag at Gristnogion a Mwslemiaid.

Dywedodd ffynhonnell na ellir ei henwi am resymau diogelwch: 'Mae crefydd yn cael ei hystyried yn rhywbeth allai arwain at ansefydlogi ac yn sicr nid yw'n cyd-fynd ag ideoleg sosialaidd Tsieina y dylai'r ddinasyddion "gael eu cyfarwyddo" yn hytrach



Siop Apple yn Chengdu, Tsieina

Llun: Unsplash

na chael caniatâd i ymarfer rhyddid barn neu gred. Mae fel petai'r [Arlywydd] Xi Jinping yn credu bod yr amser wedi dod i ffrwyno a dwyn crefyddau i drefn, yn enwedig Islâm a Christnogaeth.'

Gwaharddwyd gwerthu Beiblau ar-lein yn Tsieina yn 2018. Tsieina yw rhif 17 ar Restr Gwyllo'r Byd gan Open Doors; rhestr flynyddol yw hon o'r 50 gwlad lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth fwyaf eithafol.

(Addaswyd o newyddion dyddiol premierchristianmedia.co.uk)

Gellir dilyn y newyddion Cristnogol mae'r byd yn **eu hanwybyddu** ar eu gwefan neu drwy danysgrio i'r cylchgrawn misol *Christianity*.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 12 Rhagfyr, am 7.30yh
(aiddarlledir y Sul canlynol am 11.30yb)

Adfent #3 – Bydd Nia yn cwrdd â bachgen o Gwm Tawe sy'n ysbrydoliaeth i'w gymuned, a bydd Ryland yn treulio amser gyda gwirfoddolwyr yr elusen Superkids, elusen sy'n dod â heulwen i fywydau cannoedd o blant difreintiedig dros y Nadolig. Cawn fwynhau perfformiad bendigedig gan Glain Rhys o glasur Meic Stevens, 'Noson Oer Nadolig'.


Dyma gopi o gylchlythyr mis Rhagfyr:
<https://spark.adobe.com/page/QpwoYUG0RAPqY/>

Cystadleuaeth ysgrifennu emyn ar gyfer nodi pen-blwydd Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn 60 oed

Dyma wahoddiad i chi i ysgrifennu emyn newydd ar gyfer nodi pen-blwydd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 60 oed. Gofynnir i'r emyn fod yn gynnig Cymraeg gwreiddiol, a chofiwch ystyried beth fyddai hyd addas i'w ganu mewn capel neu eglwys.

Rhoddir gwobr o £200 i'r emyn buddugol. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 14 Ionawr 2022. Anfonwch eich ceisiadau at emynigymru@rondomedia.co.uk.

Bydd cystadleuaeth newydd yn y gwanwyn i gyfansoddi emyn-dôn i'r geiriau buddugol. Mwy o wybodaeth: www.s4c.cymru/dechraucanu.



BBC radio cymru

Sul, 12 Rhagfyr – Caniadaeth y Cysegr, 7.30yb a 4.30yp

Bydd Modlen Lynch yn parhau i drafod cyfraniad merched i'n hemynyddiaeth gyda phwyslais ar garolau.

Sul, 12 Rhagfyr – Oedfa Radio Cymru, 12.00yp

Ar drydydd Sul yr Adfent byddwn yn parhau gyda'r gyfres o oedfaon o'r gwledydd Celtaidd. Oedfa dan arweiniad John Owain Jones, sydd yn weinidog ar Ynys Bute yn yr Alban.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

A ninnau yn nhymor yr Adfent, fe fyddwn yn parhau â'r gyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

6 Deall Heddwch

Shalom a chroes Crist

Darlenn: Colosiaid 1:15–20

'a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd' (adn. 20)

Efallai eich bod wedi sylwi erbyn hyn fod yna wedd oddrychol yn ogystal ag un wrthrychol i'r peth yma rydym yn ei alw yn heddwch. Yn oddrychol, gall fod y ffordd rydym yn teimlo neu ddim yn teimlo. Mae digwyddiadau ein bywydau beunyddiol yn creu amgylchiadau lle rydym yn teimlo bod gennym, neu nad oes gennym, yr heddwch rydym yn ei geisio. Yn wrthrychol, mae'r Beibl hefyd yn sôn am heddwch mewn ffordd wahanol. Yn ein hadran o'r ysgrythur heddiw, does yna ddim cyfeiriad at y ffordd rydym ni'n teimlo; ond yn hytrach gwneir datganiad herfeiddiol bod Duw trwy Grist wedi gwneud heddwch 'trwy ei waed ar y groes' gyda phob peth (adn. 20). Mae angen i ni ddeall beth sy'n cael ei ddweud yma.

Ceir un o uchafbwyntiau'r ysgrythur yn yr adran yma. Fe gyhoeddir mawredd Crist ac unigrywiaeth Crist mewn ffordd ogoneddus. Gydag adleisiau o destunau Beiblaidd eraill, cawn wybod mai Crist yw delw'r Duw anweledig (adn. 15 a Hebreaid 1:3), bod popeth wedi ei greu ganddo ac er ei fwyn (adn. 16 ac Ioan 1:3), ei fod cyn bod amser (adn. 18 ac Ioan 17:5), ei fod yn cynnal pob peth (adn. 17 a Hebreaid 1:3) ac mai ei eiddo ef yw'r lle blaenaf ym mhob peth (adn. 18 ac 1 Corintiaid 8:6). Yr hyn sy'n anodd peidio sylwi arno na'i wadu yw dyrchafiad llwyr Iesu. Mae ef yn ddyrchafedig, wedi ei godi yn uchel, yn deilwng o bob gogoniant a mawl.

Ond mae adnod 20 yn ein hatgoffa bod Iesu wedi dod mewn cnawd i bwrpas, ac nad gwneud inni deimlo'n well yn unig oedd y pwrpas hwnnw – o leiaf ddim yn uniongyrchol yn yr ystyr sylfaenol. Er enghraifft, pe byddai'r adran uchod yn dweud y cyfan y mae'n ei ddweud am Iesu, ac yna'n cloi drwy ddweud iddo fyw bywyd hir a sanctaidd ac iddo farw mewn henaint yn ei gartref ei hun yn Nasareth, fe fyddai'n cynnig rhyw gymorth imi yn yr ystyr ei fod yn gwybod sut beth oedd byw yr un math o fywyd â ni a'i fod yn ymwybodol o'r math o broblemau sy'n dod i'n rhan. Ond, ar wahân i gyfrannu rhagor o ysbrydoliaeth inni, fyddai dim mewn gwirionedd wedi newid.

Fe gyfeirir at yr hyn newidiodd yn adnod 20: i Dduw ein Tad, drwy Iesu ei Fab, ein

Hiachawdwr, ar ôl iddo 'wneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun'. Ewch â'ch meddyliau yn ôl at noson y Pasg y buom yn sôn amdani yn flaenorol, a haerriad Iesu bod yn rhaid iddo adael ei ddisgyblion (Ioan 16:6–7). Nid awydd ffarwelio efo nhw oedd y cymhelliad cryf dros adael, ond 'troes efei wyneb i fynd i Jerwsalem' (Luc 9:51) oherwydd bod yr awr wedi dod 'i Fab y Dyn gael ei ogoneddu' (Ioan 12:23). Yma felly mae calon yr hyn a olygir wrth fod yn ymwneud â'r heddwch sydd y tu hwnt i bob deall. Heddwch gwrthrychol ydyw – rhywbeth sydd wedi ei wneud yn bosibl yn unig drwy ymyrraeth Duw. Cafodd ryw wahaniaeth ei wneud sydd wedi newid y berthynas rhwng Duw a dynoliaeth.

Rhai blynyddoedd yn ôl, fe fûm mewn syrcais. Er bod y llewod a'r teigrod yn drawiadol, y clowniaid yn ddoniol a'r rhai ar y trapeze yn hynod o ddewr, y troelli platiau fyddaf i'n ei gofio orau. Roedd o'n ddoniol, yn glyfar ac mor ddifys â dim arall a welwyd y diwrnod hwnnw. Pan oedd y platiau'n troelli'n wastad roedd popeth yn iawn, ond yr eiliad y dechreuon nhw fynd oddi ar eu hechel, dyma'r gynulleidfa'n dechrau gweiddi a chyfeirio'r troellwr i'r man y dylai fynd nesaf.

Y ddelwedd o'r plât yn troelli'n gam yw un o'r delweddau sy'n aros gyda mi i gyfleu'r hyn y mae'r Beibl yn ei alw'n bechod. Efallai mai bychan yw'r cwmpas yn nhroelli'r plât, ond fe allwch chi ddweud yn syth nad yw'n troelli'n wastad. Yr unig beth all gywiro'r sefyllfa yw ymyrraeth y troellwr platiau er mwyn dwyn popeth yn ôl i'w le.

Nawr 'te, mae pob delwedd yn ffaeledig, felly peidiwch ag ymestyn hon y tu hwnt i'w thefynau. Y peth yw mae'r holl greadigaeth wedi bod yn troelli oddi ar ei hechel ers i bechod ganfod ei ffordd i'n byd. Rydym hyd heddiw yn dal i ymgodymu efo deall beth mae hyn yn ei olygu, ond wrth inni edrych o'n cwmpas dydyn ni yn sicr ddim yn gorfod ymgodymu i ddeall realiti hyn. Hyd yn oed ar ein dyddiau gorau, nid yw ein cymhellion puraf, ein gweithredoedd mwyaf caredig ond yn para am ennyd, ac ar eu gwaethaf yn cael eu maeddu gan gymhellion di-drefn.

Rydym wedi gweld fod creadigaeth ryfeddol Duw wedi cwmpo i gyflwr o wrthryfel yn sgil her y rhai a greodd ac a roddodd ewylllys rydd iddyn nhw. Yn rhywle a rhywfodd, yn y drefn anweledig sy'n cydio ein bywydau dynol ninnau, bywydau'r anifeiliaid a hyd yn oed y bydysawd corfforol ei hun ynghyd, fe aeth bywyd ei hun oddi ar echel Duw.

Dychmygwch effaith gyfunol y troelliadau anwastad di-rif yma. Bywydau briwedig, toredig, wedi'u gwasgu; trais a gwrthryfel; camddefnydd a diffyg defnydd; perthnasau wedi eu gwyro, salwch a phoen; damweiniau a thrasiedi; iselder a hunan-gasineb; casineb ac ymladd, brwydrau a rhyfeloedd; angau a marw. O'u cymryd gyda'i gilydd maen nhw'n ffurfio wal enfawr na ellir ei bylchu rhyngom ein hunain a Duw. Maen nhw'n ein hamddifadu o unrhyw gyfle i fwynhau presenoldeb Duw.

Ond mae newydd da, nid drwg i'w gael, oherwydd mae Duw wedi gweithredu, ac yng Nghrist wedi gwneud heddwch trwy ei farw ar y groes. Bydd pob plât sy'n gwyro, fe welwch, o'i adael ar ei ben ei hun, yn disgyn i'r ddaear ac yn malu'n chwilfrw. Dyna'r farwolaeth sy'n ganlyniad naturiol i'n bywydau di-drefn. Ond nid yw'r cyfan yn drwg, o bell ffordd. Ond yn wrthrychol, yr ydym wedi ein gwahanu oddi wrth Dduw sydd yn sanctaidd yn ei holl ffyrdd. Oherwydd hyn, y mae Iesu'n dod i mewn i'n profiad dynol i gymryd arno'i hun y cyfan sy'n cael ei osod arnom ninnau.

Mae Rhufeiniaid 5:12–21 yn mynegi hyn yn dda, ac yn y fan hon mae ein hefengyl yn ymgysylltu ynghyd mor ryfeddol. Roedd Iesu yn ddibechod ac felly heb fod yn haeddu marw. Ni ellir dweud hynny am unrhyw un arall. Ond fel yr un diniwed, bu farw ar ein rhan, ac yn y weithred o farw, fe gymerodd bechod y byd i mewn iddo'i hun ac i lawr i farwolaeth. Ni allwn ni blymio dyfnderau'r deall sydd ei angen er mwyn gwneud synnwyr o sut y bu'n 'angau i'n hangau ni', ond rydym yn gwybod, os yw croes ac atgyfodiad Iesu yn golygu unrhyw beth, yna gwrthbwynt eithaf cyfanswm trueni dyn, sydd yn gorwedd ar ochr arall y glorian, ydyw.

Atgyfodiad Crist oedd y dystiolaeth bod angau ei hun wedi ei ddinistrio, a bod heddwch o'r diwedd yn bosibl. Un dydd fe fydd yn cael ei sylweddoli'n llawn, ond ar hyn o bryd rhagfardd sydd yn bosibl. Yn Rhufeiniaid 5, fe ddarlennwn, 'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist', ac yn Ioan 10:10 fe ddarlennwn eiriau Iesu, 'Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder.'

Mae heddwch yn bosibl yn awr, yn y bywyd hwn, drwy berthynas o ffydd byw gyda Duw. A thros y dyddiau sy'n dod, rwyf am inni weld sut mae pobl Dduw wedi chwilio am yr heddwch hwnnw drostynt eu hunain ynghanol llawer o gyfyngderau, ac wedi dod o hyd iddo.

[Yn y gyfrol, fe roddir portreadau o amryw gymeriadau o'r Hen Destament o dan y pennawd, 'Saint yn chwilio am heddwch'. Cawn gyfarfod un o'r rheiny yr wythnos nesaf. Gol.]



Dewisiadau amhosibl mam

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2021

Mae'r pwmp llaw ym mhentref Adut Mariu yng ngogledd De Swdan wedi trawsnewid bywyd ei theulu a'i chymuned gyfan. Bellach mae ganddynt gyflenwad da o ddŵr glân y gallant ddibynnu arno.

'Mae'r dŵr ddaw o'r pwmp llaw yn dda iawn,' meddai Adut, sy'n fam i dri. 'Mae'r rhydd o haint. Rydym yn yfed ohono gyda thawelwch meddwl.'

Ond mae ei thawelwch meddwl presennol yn awgrymu adegau mwy pryderus yn y gorffennol. Cyn i SPEDP, partner lleol Cymorth Cristnogol, adeiladu twll turio, roedd y pentref yn gorfod dibynnu ar yr afon gyfagos am ei gyflenwad dŵr. Ateb anfodddhaol oedd hyn, ar y gorau.

'I edrych ar ôl fy mhlant, roedd rhaid iddynt yfed o ddŵr yr afon fudr,' cofiodd Adut. 'Mae yna sawl haint yn y dŵr. Mae carthion gwartheg yno, mae carthion mulod yno ... Mae pobl yn ymolchi yno.'

Ond yn ystod adegau o lifogydd – problem gyson yn y rhanbarth, sy'n waeth oherwydd newid hinsawdd – roedd y cyflenwad dŵr yn cael ei halogi fwyfwy.

'Pan ddaeth y llifogydd, fe ddaethon nhw yn eu holl rym,' cofiodd Adut. 'Roedd y pentref dan ddŵr. Doedd neb yn gallu

symud. Doedd y masnachwyr aeth i'r farchnad ddim yn gallu dod o hyd i'w ffordd yn ôl. Doedd y plant oedd yr arfer mynd i'r ysgol ddim yn gallu mynd yno bellach. Cafodd popeth ei ddinistrio.'

Heriau De Swdan

Mae'r sychder a'r llifogydd yn waeth ac yn digwydd amlach oherwydd yr argyfwng hinsawdd. Yn Ne Swdan, maent yn wynebu problem ychwanegol, sef blynyddoedd o anghydfod ac, yn fwyaf diweddar, pandemig Covid 19. Mae argyfwng newyn yn datblygu yn y wlad.

Ymhlith y cymunedau mwyaf bregus mae'r rhai sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth, fel y rhai yn nhalaith Gogledd Bahr el Ghazal yng ngogledd-orllewin De Swdan. Yn dilyn y llifogydd y llynedd, gadawyd teuluoedd yn y rhanbarth heb ddigon o fwyd, dŵr a lloches. Lladdwyd nifer fawr o dda byw a dinistriwyd cnydau. Yn ychwanegol at hyn, cynyddodd heintiau mewn dŵr oherwydd bod y dŵr wedi ei halogi.

Gweithredu lleol

Mae gwaith Cymorth Cristnogol yn y rhanbarth yn cael ei wneud gan bartner lleol, Support for Peace and Education Development Program (SPEDP). Y prif waith yw trwsio ac adeiladu tyllau turio sy'n dod â dŵr glân i'w yfed i gymunedau, waeth beth fo'r tywydd.


Yn ychwanegol at hyn, mae'r prosiect yn rhannu negeseuon ynghylch glanweithdra; yn rhoi hyfforddiant mewn ffermio, hadau ac offer i wella diogelwch bwyd; yn dangos i gymunedau sut i adeiladu cloddiau er mwyn amddiffyn cartrefi rhag llifogydd; ac yn cynnig cyfleoedd i wella incwm trwy grwpiau cynilo a benthyg arian.

Dewisiadau anodd

Cyn y twll turio, roedd Adut yn wynebu dewisiadau amhosibl: rhoi dŵr budr i'w phlant neu ddim dŵr o gwbl. Nawr, fodd bynnag, mae dŵr glân ar gael. Hyd yn oed yn ystod y llifogydd, roeddent yn gallu dibynnu ar bwmp y pentref – datblygiad sydd wedi trawsnewid eu bywydau.

Y Nadolig hwn, gallwch helpu mwy o gymunedau fel rhai Adut. Trwy sefyll mewn undod gyda hwy, gallwch sicrhau na fydd yr un fam yn gorfod gwneud dewisiadau amhosibl eto.

Am fwy o wybodaeth am Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol, os gwelwch yn dda ewch i: <https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christmas-appeal>



Adut Mariu o Dde Swdan gydag un o'i thri phlentyn. Mae bywyd y teulu wedi ei drawsnewid oherwydd y twll turio dŵr yn y pentref

Llun: Cymorth Cristnogol / Silvano Yokwe

Gweddi Ail Wythnos yr Adfent

'Llais yn gweiddi'n uchel yn yr anialwch.'

Luc 3:4

Yn mhymthegfed flwyddyn teyrnasiad yr Ymerawdwr Tiberiws,

Pan oedd Pontius Peilat yn llywodraethwr Jwdea

A Herod yn is-lywodraethwr Galilea,

A'i frawd Phillip yn Itwrea

a Trachonitis,

A Lysanias yn Abilene,

Yn ystod archoffeiriadaeth Annas a Caiaphas,

Daeth gair Duw i loan fab Sachareias

yn yr anialwch.

Dduw'r Adfent,

O'r holl lefydd a'r holl bobl

Dewisaist loan,

Mab Sachareias ddefosiynol ond amheus,

I gyhoeddi bedydd edifeirwch

Am faddeuant pechodau.

O'r holl safleoedd grym

A'r holl lefydd breintiedig,

Dewisaist yr anialwch

I fod yn fan trawsnewid,

Ble mae'r holl gysuron a'r gwrthdymiaidau

Wedi eu tynnu i ffwrdd

A'r cyfan sy'n wir, yn cael ei ddadorchuddio.

Wrth inni edrych tua chanolfannau grym

Am y newid yr ydym yn dyheu amdano,

Helpa ni i beidio â chamosod ein gobaith,

Nac esgeuluso'r annisgwyl a'r annhebygol,

I wrthod yr anghonfensiynol a'r anghysurus

Nac osgoi'r gobaith yr ydym yn disgwyl

Ei ganfod mewn drawdod cynnes stabl.

Amen.



Llun: Cymorth Cristnogol / Silvano Yokwe

Adut Mariu yn codi dŵr glân gyda'r pwmp llaw sydd yn ei phentref yn Ne Swdan

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Adolygiad

Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am Iechyd Meddwl a Chymwynas Fawr Dr David Enoch

Cyhoeddwyd y gyfrol *Meddyg y Galon Glwyfu : Gofal am Iechyd Meddwl a Chymwynas Fawr Dr David Enoch* gan Robin

Gwyndaf yn ddiweddar, ffrwyth ymchwil manwl, chwilota eang a dethol gofalus.

Nid tasg hawdd yw ceisio cyflwyno argraffiadau

personol teilwng o gynnwys manwl a chyfoethog, a chymaint o wybodaeth, a gwneud hyn yn weddol gryno. Mae'n gyfrol hardd a deniadol, gyda sglein arbennig ar y siaced lwch a holl agweddau'r argraffu o safon uchel lawn, yn hollol gyson a'r amlinellid o waith, cyfraniadau a chyraeddiadau'r unigolion a ddarlunnir ynghyd â disgleirdeb eu gwaith. Yn bennaf, gofal am iechyd meddwl, a'r prif wrthrych, Dr David Enoch, y seiciatrydd o fri a byd-enwog.

Ceir cyfeiriadau at y gwasanaeth iechyd a gwaith diflino'r meddygon, nyrsys, parafeddygon ac ati. Yn ogystal, crybwyllir y cartrefi gofal a'r elusennau niferus, heb anghofio eglwys y Bedyddwyr, y Tabernacl, Caerdydd, a'r modd y mae'n rhoi Cristnogaeth ar waith. Ie, 'pa les yw i ddyn ddweud fod ganddo ffydd, ac yntau heb weithredoedd.' (Llythyr Iago 2.14), eglwys lle mae Robin Gwyndaf yr awdur yn aelod.

Themâu

Dwy thema sydd i'r gyfrol: 'gofal am iechyd meddwl' a 'diolch am destun diolch,' i'r holl unigolion a grybwyllir uchod a'u gwaith diflino yn sicrhau'r gofal gorau i'r anghenus. Ar glawr y gyfrol mae'r geiriau hyn:

'Hyderaf y caf fel cynt
Weld yr haul wedi'r helynt.' (Elfyn)

Disgrifir helyntion a gorthymderau'r ddynoliaeth ac fe ddaw'r profiadau'n fyw wrth ddarllen, canys profiadau byw, real iawn oeddynt, ac ydynt, i'r awdur ei hun ac i eraill. Dyma'r llinyn aur sy'n rhedeg drwyddi. Gwelir y neges ganolog yn y geiriau hyn:

Ar fin y ffordd y mynnwn fyw,
Yn rhannu helynt dynol ryw;
Ar fin y ffordd y carwn fod,
Yn ffrind i bawb sy'n mynd a dod.
'Cân y Crynwyr'

Rhesymau

Mae'r awdur Robin Gwyndaf yn holi cwestiwn: 'Paham cyhoeddi'r gyfrol?' Noda dri rheswm:

- 1) Rheswm personol yw'r rheswm cyntaf, sef diddordeb yr awdur mewn meddygaeth, seicoleg, seiciatreg a seiciatryddiaeth, â ymlaen i sôn am hawliau dynol ac ansawdd bywyd pawb. Mae'n argyhoeddedig fod 'y meysydd hyn yn bwysicach heddiw nag erioed.' Ceir elfen gref o genhadaeth yn ei eiriau, ynghyd â'i ddyhead dwfn am weld arweinwyr gwledydd y byd yn ymateb yn bositif i anghenion y ddynoliaeth.
- 2) Mae'r ail reswm yn bur amlwg, o ddarllen erthyglau a llyfrau Dr David Enoch a'r portread a geir ohono o gyfeiriadau ac unigolion gwahanol y bu â chysylltiad ag ef. O'r rhain daw'r neges ddwys pa mor rhyfeddol bwysig yw ei faes arbenigol, ac mor fawr yw'r angen am feddygon o'i fath. Cynhwysir darnau llenyddol ac ysgrythurol sy'n gweddu i'r ymdriniaeth sydd o dan sylw. Cofier i ni sôn eisoes am yr amryw elusennau, a diddorol dros ben yw arwyddlun pob un ohonynt mewn lliw. Yn ychwanegol gwelir arwyddlun y Gymdeithas Feddygol ac arwyddlun Cymdeithas Seiciatryddol Cymru.

Gweddus iawn yw'r cynhwysiad o enwau a lluniau sylfaenwyr rhai o'r elusennau. Er enghraifft, Wynford Ellis Owen a'r Ystafell Fyw yng Nghaerdydd, a'i ymroddiad nodedig.

Yna, Rhian Evans, Caerfyrddin a'i gwaith wrth sefydlu Papur Llafar y Deillion, ac wedyn Llyfrau Llafar Cymru sy'n cael ei gynnal drwy haelioni mudiadau ac unigolion. Yn flaenllaw gyda'r elusen erbyn hyn mae Sulwyn Thomas ac eraill. Teimlaf reidrwydd i gynnwys diolch Robin Gwyndaf i Rhian a'i chyfraniad rhyfeddol, meddai amdani, 'Cannwyll yn olau yn y tywyllwch ydyw.'

I'r fwynaf un eiddunaf — ogoniant

Y gwanwyn tyneraf;
Hedd yr awel dawelaf,
A gwynfyd yr hyfryd haf

- 3) Y trydydd rheswm am gyhoeddi'r gyfrol yw'r portread a geir am Dr David Enoch gan y diweddar Malcolm T. Rees yn ail ran y gyfrol, sef brawd yng nghyfraith Dr Enoch, priod ei chwaer, y ddiweddar Iolande. Rhyfeddol yw manylder y portread hwn, un ar hugain o benodau yn olrhain hanes y meddyg o Ben-y-groes, Shir Gâr, o ddyddiau ei blentyndod, ei yrfa ddisglair a llu o luniau o wahanol gyfnodau ei fywyd. Ychwanegir un nodyn pwysig arall. Sylweddolodd David yn gynnar yn ei yrfa, 'y cysylltiad annatod, nid yn unig rhwng y corff a'r meddwl, ond hefyd rhwng y corff, y meddwl, yr ysbryd a'r enaid.'

Awdur


Gydol ei fywyd fel seiciatrydd blaenllaw, rhoddai bwyslais ar ffydd a chariad ac y mae sawl cyfrol o'i eiddo'n tystio i hynny. Un ohonynt yw *I Want a Christian Psychiatrist - Finding a Path back to Mental and Spiritual Well-Being*. Un arall, *Healing the Hurt Mind: Christian Faith and Clinical Psychiatry*. Mae yna gyfeiriadau yn y gyfrol at holl lyfrau Dr Enoch, yn lluniau a disgrifiadau cryno o'u cynnwys.

Dywedodd Chris Cartwright, Arolygwr Cyffredinol Eglwys Pentecostaidd Elim, yn 'Soul Care', a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Direction*, Hydref 2018: 'As a deeply devoted Christian and a great Bible teacher and preacher, David has spent a lifetime bringing together the realms of medicine and faith.' Ie! Meddyg y galon, a 'meddyg gorau, meddyg enaid'.

Gwerthfawrogiad

Diolch o galon i'r Dr Robin Gwyndaf am gymwynas fawr. Rhagflas yn unig sydd yma, ond gallaf eich sicrhau y

parhad ar dudalen 7



Dr David Enoch

Barn Annibynnol

Cwrdd

A fuoch chi yn y cwrdd dydd Sul? Neu efallai nad oedd cwrdd i gael gyda chi. Iffe cwrdd yw'r gair i chi'n ei ddefnyddio ar gyfer oedfa? Cwrdd byddaf i yn ei

ddweud, a minnau'n byw yn y de ond efallai mai 'oedfa' sy'n fwy arferol yn y gogledd.

Dechreuais feddwl am y gair 'cwrdd'. Eto efallai mai cyfarfod fyddwch chi'n ei ddweud ond yr un yw'r ystyr. Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod, ni'n dweud 'mynd i gwrdd' â rhywun. A dyna ryfedd oedd hi yn ystod y pandemig pan oedd cyfyngiadau mewn grym, a minnau'n methu mynd i gwrdd â rhywun, dim hyd yn oed y teulu, pan oedd pethau ar eu gwaethaf. Pan oeddem yn blant, cawsem ni sawl gorchymyn i beidio 'cwrdd' â rhywbeth neu gilydd – hynny yw peidio â chyffwrdd â rhywbeth. Wrth



gyfarfod â rhywun am y tro cyntaf, byddwn yn dweud, 'Mae'n dda gyda fi gwrdd â chi.' Yn y gorffennol, fe fyddai'n beth naturiol i ni wedyn i ysgwyd llaw, ond nid yw'n ddiogel i wneud hynny ar hyn o bryd.

Cwrdd plant

Gadewch i ni fynd 'nôl i'r capel, a phan oeddem yn blant, roedd yn arferiad yn ein capel ni i gael 'cwrdd plant' unwaith y mis. Byddai'r plant yn gorfod dysgu gwaith wedi ei osod gan yr athrawes ysgol Sul ac yna fe gafwyd anerchiad pwrpasol i'r plant. Byddai'n gweinidog ar y pryd yn defnyddio bwrdd gwlanen. Byddai'r bwrdd yn dod dros y pulpud ac roedd ganddo ffigurau i'w gosod ar y bwrdd oedd yn cyd-fynd â'r stori. Nid oeddem ni blant yn gyfarwydd â gweld y fath beth, mae'n siŵr roedd ein gweinidog yn arloesol yn hyn o beth ond rwy'n dal i gofio'r wefr o weld y cymeriadau a methu deall sut nad oeddynt yn cwmpo!

Tŷ cwrdd

Yr hen enw am y capel oedd tŷ cwrdd gan mai dyna beth ydoedd. Yn ddiweddarach daeth adeiladau fel capeli, fel bod mwy o bobl yn medru dod at ei gilydd gyda'r pwrpas o addoli. Erbyn hyn, gwelir bod ein capeli yn aml iawn, yn rhy fawr ac maent yn gostus

i'w cynhesu ar gyfer un oedfa yr wythnos ac mae'r gost o'u cynnal a'u cadw yn feichus. Y dydd o'r blaen, deuthum ar draws diffiniad o beth yw 'synagog'. Daw o'r gair Groegaidd 'sunageun' sy'n golygu 'casglu pobl ynghyd' a dyna oedd yn wreiddiol fel ein tŷ cwrdd ni. Ond erbyn heddiw, mae'r synagog yn llawer iawn mwy na hynny-mae'n ganolfan gymunedol aml bwrpas. Fe'i ystyrir yn dŷ cwrdd; yn dŷ gweddi ac yn dŷ dysg. Meddyliais efallai mai dyna ddylai fod pwrpas delfrydol ein capeli minnau hefyd.

Mae'r pandemig a'r cyfnod clo yn benodol wedi peri i lawer aillystyried y defnydd a wneir o'u hadeiladau. Bydd rhai yn anffodus yn ei gweld hi'n amhosibl i oresgyn hyn, tra bydd eraill yn cael gweledigaeth newydd o sut fedd droi'r adeilad yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned eang, a hynny nid yn unig ar y Sul.

Tŷ Croeso

Rwyf eisioes wedi sôn am y cynlluniau sydd gyda ni ar y gweill

ym Methlehem Newydd, Sanciâr, i drawsnewid llawr isaf y capel gyda'r bwriad o wahodd y gymuned i fewn yn groesawgar i le cysurus, y bydd modd ei ddefnyddio yn ystod

yr wythnos, yn ogystal ac ar gyfer addoli ar y Sul. Bu trafodaeth ar beth i alw'r prosiect yma ac un enw roeddwn wedi'i ystyried oedd Tŷ Cwrdd ond fe benderfynwyd ar Tŷ Croeso. Mae cymaint mwy ymhlyg yn yr enw yma, onid does? Mae'n dweud y cyfan. Ac onid tŷ croeso ddylai ein holl gapeli fod? Lle croesawgar sy'n derbyn pobl a rhoi cyfle iddynt 'gwrdd' â'i gilydd er mwyn cymdeithasu, rhannu profiadau a chael cynhaliaeth feddyliol ac ysbrydol. Hoffais ystyr y gair synagog – tŷ cwrdd; tŷ gweddi; tŷ dysg. Ac wrth gyplysu'r cyfan gyda tŷ croeso, dyna i chi ein capeli ar eu newydd gwedd. Canolfan aml bwrpas i'r gymuned i'w ddefnyddio at bwrpas llawer mwy eang na dim ond addoli ar y Sul.

Nid yw'n pandemig drosodd, ac mae cwrdd â'n gilydd dal i fod yn hollol wahanol i fel ag yr oedd cyn dyfodiad yr aflwydd Covid yma. Ond un peth sy'n sicr ac ni ddylem golli golwg ohono:

Wedi holl dreialon,
wedi cario'r dydd,
Cwrdd ar Fynydd Seion,
O mor felys fydd.

Watcyn Wyn

Annalyn Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwr na'r tîm golygyddol.)

Adolygiad – parhad

cewch agoriad llygad, fel minnau, o ddarlenn hanes am gyflwr truenus unigolion o bob oed, a rhai ohonynt yn gaeth i gyffwr ac alcohol, y digartref ac unigolion a brofodd gamdriniaeth o unrhyw fath, a chyfraniad amhrisiadwy y gwasanaeth iechyd ac eraill. Cefais fy sbreiddio'n llwyr. Hoffwn nodi un peth arall. Gwn i'r Dr David Enoch dderbyn canmoliaeth ac anrhyddedau ar hyd ei fywyd. Hyfrydwch yw cael cyfrol fel hon sy'n dod â'r cyfan at ei gilydd - a hyn yn ei ddydd.

Meddai'r Athro Mari Lloyd-Williams: 'Trysor o gyfrol gyfoes, hardd, sy'n werth i bawb ei darllen.' Cytunaf yn llwyr. Cewch flas anghyffredin ar y darllen.

Rhanna dy bethau gorau,
Rhanna, a thi yn dlawd;
Rhanna dy wedd a'th gariad;
Rhanna dy gydymdeimlad;
Rhanna dy nefoedd frawd;
Rhyw nefoedd wael yw eiddo'r dyn
Fynn gadw'i nefoedd iddo'i hun.

R. H. Jones

Diolch am y diolch a'r cyfle i ddiolch.

Morlais Dyfnallt Owen

Gweddi Nadolig

Arglwydd Iesu Grist,
fe'th ganwyd i farw.

Cymeraist arnat dy hun ein dynoliaeth
er mwyn profi ein meidroldeb.

Dangosaist i ni lwybr cariad,
ac fe'i dilynaist hyd y diwedd.

Cyhoeddaist faddeuant,
a bu i ti dalu'r pris i'w sicrhau.
Gwared ni, wrth i ni ddathlu dy eni,
rhag anghofio mai dechrau'r stori'n
unig yw hyn.

Wrth i ni dy gyfarch fel baban
Bethlehem,
rho i ni hefyd dy gyfarch fel Gwaredwr
Croeshoeliedig
ac Arglwydd atgyfodedig.
Amen

Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol
gan Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Ebeneser Caerdydd: Uned Arennol

Braf oedd cael bod yn dystion i Seren Ann Jones yn cyflwyno siec i gynrychiolwyr Elusen Uned Arennol Ysbyty Plant Cymru yn yr oedfa ar fore Sul 21 Tachwedd. Croesawyd i'n plith bedwar o gynrychiolwyr yr elusen sef David Fellows, Nikkila Thomas, Carys Nicolas a Donna Follett.

Ers dwy flynedd bu aelodau Ebeneser

yn codi arian tuag at yr elusen hon a hynny mewn cyfnod chwithig eithriadol. Wrth gyflwyno'r siec dywedodd Seren air o ddiolch am waith yr uned. Tros y blynnyddoedd y mae Seren wedi derbyn triniaeth ofalus ac effeithiol gan yr Uned Arennol sydd wedi arbed ei bywyd. Yna, mynegwyd gair o werthfawrogiad gan Carys am y rhodd o £6,355. Bydd yr

arian yn cael ei ddefnyddio er mwyn adnewyddu mynedfa ac ystafell aros yr uned lle y mae cleifion a theuluoedd yn treulio llawer o amser wrth



ddisgwyl apwyntiadau a thriniaethau. Derbyniwyd llythyr gan Dr Judith van der Voort, yn diolch am y cyfraniad hael.

Coffi a Chacen

Bob blwyddyn y mae Siôn Corn yn ymweld ag ysgol Sul Ebeneser gan roi anrheg fechan i'r plant. Eleni roeddem yn meddwl y byddai'n hyfryd i blant, teuluoedd ac aelodau Ebeneser i roi anrhegion i'r hen Siôn, er mwyn iddo eu cludo i blant difreintiedig lleol.

Y mae elusen Coffi a Chacen (Coffee and Cake) sydd â chaffi yn Llwynbedw, (Birchgrove), Caerdydd, yn darparu pecynnau brecwast yn ddyddiol i 250 o blant sydd ddim yn cael digon o faeth. Y mae pob pecyn brecwast yn costio £3.50 ac y mae ei fwyta yn golygu fod y plant yn cael digon o egni ar gychwyn y dydd i ddysgu ac i ganolbwyntio.

Y bwriad yw ein bod fel eglwys yn codi arian tan y Nadolig fel bod sach Siôn Corn yn llawn pan mae'n gadael eleni. Trwy hyn byddwn yn rhannu cariad Duw tuag at blant anghenus yn lleol.

Rhodd

Yn ystod tymor yr Adfent bydd Ebeneser yn cyflwyno llyfryn Nadolig Cymdeithas y Beibl, sef yr *Yr Addewid Amhosib*, yn rhodd i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Melin Gruffydd.

Operation Christmas Child

Bu ymateb da eleni i'r apêl i lenwi bocsys gyda rhoddion i blant. Daeth 28 bocs i law ac y maent nawr wedi eu trosglwyddo i'r elusen er mwyn eu dosbarthu yn fyd-eang. Gobeithiwn gael gwybod yn y man ym mha wlad y dosbarthwyd bocsys Ebeneser. Diolch i Arwel Peleg Williams am archebu'r bocsys cardfwrdd yn brydlon.



Ty'nygwndwn



Eglwys Ty'nygwndwn, Felin-fach: oedfa dderbyn Mrs Val Jones, Mrs Megan Jones a Mr Gwyn Price Jones yn ddiagoniaid newydd i'r eglwys. Roedd yr oedfa o dan ofal y Parchedig Stephen Morgan (ar y chwith yn y llun). Daw Mrs Val Jones yn ysgrifennydd yr eglwys i olynu Mrs Megan Jones, Annedd Fflur sy'n ymddeol fel ysgrifenyddes ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl 36 o flynyddoedd o wasanaeth.